

Cyfeirnod: IR872

Dyddiad cyhoeddi: 7 Mehefin 2023

Gohebiaeth ynghylch ymyriadau teirochrog y GIG

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 24 Ebrill 2023, a oedd yn gofyn am y canlynol:

Copiâu o unrhyw ohebiaeth yn ceisio barn Archwilio Cymru i fwydo i mewn i Gyngor Gweinidogol ar gynrychiolaeth y broses benderfynu deirochrog gan Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Rwyf wedi penderfynu bod yr esemptiad a ddarperir gan adran 33 y Ddeddf yn berthnasol i'r wybodaeth yr ydym yn ei dal sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad, gan bod ei datgelu'n debygol o beryglu'r gallu i arfer swyddogaethau archwilio. Byddai ei datgelu'n atal awdurdodau cyhoeddus rhag cydweithredu gydag archwilwyr, yn enwedig o ran llif rhydd gwybodaeth a all fod yn berthnasol i swyddogaethau archwilio, a byddai hyn yn ei gwneud yn anos gwneud gwaith archwilio'n effeithiol. Mae'r esemptiad dan adran 33 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn amodol ar brawf budd y cyhoedd, felly rwyf wedi pwyso a mesur y niwed hwn yn erbyn budd y cyhoedd pe bai gwybodaeth gyhoeddus ehangach ar gael am y ffordd y mae archwilwyr y sector cyhoeddus yn gweithio, fel ag i hwyluso atebolrwydd am ddefnyddio arian cyhoeddus. Rwyf wedi dod i'r casgliad mai'r hyn sydd er budd y cyhoedd yw cynnal yr eithriad dan adran 33, ac rwyf felly'n dal yr wybodaeth yn ôl.

Hefyd, o fewn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad mae cyfeiriadau e-bost ar gyfer swyddogion ar rengeodd is a manylion cyswllt pellach y mae'r esemptiad a ddarperir gan adran 40(2) y Ddeddf yn berthnasol iddynt, gan mai data personol yw hwn ac y gallai ei ddatgelu dorri egwyddorion diogelu data Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data.

Os ydych yn anfodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol trwy anfon e-bost i cyfraith.moeseg@archwilio.cymru.

Rhaid i mi eich cyfeirio hefyd at adran 50 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth sy'n caniatáu i chi apelio wrth y Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ar ôl ystyried a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf ai peidio. Manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

e-bost : casework@ico.gsi.gov.uk

Ffôn: 0303 123 1113

Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, serch hynny, na fydd y Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes bod y broses ar gyfer adolygiad mewnol wedi cael ei dihysbyddu. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/>

Ceir gwybodaeth am y modd yr ydym yn prosesu data personol yn ein Polisi Preifatrwydd a Chwcis sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru yn: <https://www.audit.wales/cy/polisi-preifatrwydd-chwcis>. Mae hwn yn cynnwys gwybodaeth am eich hawliau chi a sut i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â mi'n ddiymdroi.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth